
# NID YN FY ENW I 2024

**<u>Ymgyrch i Roi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod</u>**



## Trosolwg o’r ymgyrch

Mae FfCSyM wedi bod yn ymgyrchu dros ddileu trais yn erbyn menywod ers 2008; yn codi ymwybyddiaeth o natur, maint ac effaith pob math o drais yn erbyn menywod.

Ers 2012, mae FfCSyM-Cymru wedi gweithio gyda Joyce Watson, Aelod o’r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, yn recriwtio llysgenhadon gwryw i godi llais yn erbyn trais gan ddynion yn erbyn menywod yn ystod y 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar Sail Rhywedd (25 Tachwedd - 10 Rhagfyr) ac i ledaenu’r neges nad yw trais yn erbyn menywod yn dderbyniol ac ni chaiff ei oddef. Mae ymgysylltu â dynion a bechgyn yn hanfodol wrth herio'r anghydraddoldebau a'r agweddau sy'n achosi trais yn erbyn menywod.

Mae SyM ar draws y wlad wedi cymryd rhan trwy annog grwpiau gwrywaidd lleol a phenderfynwyr i addo peidio byth â defnyddio, esgusodi nac aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod.

Trwy lofnodi addewid ‘Nid yn fy Enw i’ a gwisgo rhuban gwyn, gall dynion ar draws y wlad anfon neges bwerus – nad yw cam-drin domestig byth yn dderbyniol, ni ddylid byth ei anwybyddu ac ni ddylid byth ei esgusodi.

## Beth yw ystyr trais yn erbyn menywod?

Camdriniaeth systematig o hawliau dynol sylfaenol menywod a math o wahaniaethu yn erbyn menywod yw trais yn erbyn menywod. Mae’n achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb. Mae’n cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol eraill, stelcio, trais ar sail ‘anrhydedd’ (gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, a lladd ar sail ‘anrhydedd’), rheolaeth drwy orfodaeth ynghyd â llawer o rai eraill, gan gynnwys troseddau a gyflawnwyd ar-lein.

## Niferoedd trais yn erbyn menywod

- Yn fyd-eang, bydd 1 ymhob 3 menyw yn dioddef trais corfforol neu rywiol yn ystod ei bywyd.
- Caiff dwy fenyw eu llofruddio gan bartner neu gyn-bartner bob wythnos yn y DU.
- Amcangyfrifir bod 1.4 miliwn o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mawrth 2023.
- Amcangyfrifir bod 798,000 o fenywod wedi dioddef ymosodiad rhywiol (gan gynnwys ymgeisiau) yn y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mawrth 2022.
- Dangosodd ymchwil Cymorth i Ferched Cymru bod pedair ym mhob pum menyw yng Nghymru wedi dioddef aflonyddu rhywiol o ryw fath yn y gwaith.
- Mae Plan International UK wedi darganfod bod 75% o ferched 12 - 21 oed yn y DU wedi dioddef aflonyddu rhywiol cyhoeddus o ryw fath yn ystod eu bywydau.
- Mae’r heddlu yn cofnodi 3000 o droseddau o drais yn erbyn menywod a merched bob dydd gyda chynnydd o 37% rhwng 2018 a 2023.
- Amcangyfrifir bod 137,000 o fenywod a merched yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM).
- Seiberfwlio ac aflonyddu ar-lein yw’r mathau mwyaf cyffredin o gam-drin dioddefwyr ar-lein.

## 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar sail Rhywedd

**25 TACHWEDD – 10 RHAGFYR**

Mae’r 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar sail Rhywedd yn ymgyrch rhyngwladol sy'n dechrau ar 25 Tachwedd sef Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod, ac sy’n dod i ben ar 10 Rhagfyr sef Diwrnod Hawliau Dynol. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd fel mater hawliau dynol yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## Ymgyrch Rhuban Gwyn



Ymgyrch Rhuban Gwyn yw'r ymdrech fwyaf yn y byd gan ddynion sy'n gweithio i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod. Mae'r rhuban gwyn yn symbol o wrthwynebiad dynion i drais yn erbyn menywod. Mae gwisgo rhuban gwyn yn addewid i beidio byth â defnyddio, esgusodi nac aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod. Bob blwyddyn, caiff dynion a bechgyn eu hannog i wisgo rhuban gwyn am wythnos neu bythefnos, yn dechrau ar 25 Tachwedd sef Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod.

## Pam cynnwys dynion?

Mae rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn fusnes i bawb!

Er bod nifer anghymesur o fenywod yn ddioddefwyr trais, ni ddylem danbrisio rôl dynion yn atal a dileu trais yn erbyn menywod. Gall dynion fod yn gyfryngau newid a chwarae rhan hollbwysig fel modelau rôl cadarnhaol i'n helpu ni i gyflawni newid diwylliant lle na chaiff trais yn erbyn merched ei oddef gan gymdeithas.

Ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar fenywod a merched i addasu eu bywydau, ond yn hytrach ar dramgwyddwyr i newid eu hymddygiad. Mae arnom angen diwylliant lle nad oes unrhyw oddefgarwch o gwbl o anghydraddoldeb, rhywiaeth, casineb at fenywod a merched, a thrais yn erbyn menywod. Ni ddylai cymdeithas oddef agweddau ac ymddygiad amhriodol.

## Dewch yn gynghreiriaid yn atal a dileu trais yn erbyn menywod – Syniadau ar gyfer gweithredu

- **Dangoswch eich gwrthwynebiad at drais gan ddynion yn erbyn menywod drwy wisgo rhuban gwyn a gwneud yr addewid Rhuban Gwyn**

Mae gwisgo rhuban gwyn yn addewid i beidio byth â defnyddio, esgusodi nac aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod. Hefyd mae'n gyfle i godi ymwybyddiaeth ac i ddechrau sgwrs.

Gwnewch yr addewid Rhuban Gwyn yma: https://www.whiteribbon.org.uk/promise

- **Dewch yn Lysgennad neu Gefnogwr Rhuban Gwyn swyddogol**

Dangoswch eich ymrwymiad i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod trwy gofrestru i ddod yn Lysgennad neu Gefnogwr Rhuban Gwyn. I gael gwybod am sut i ddod yn lysgennad neu gefnogwr, ewch i: https://www.whiteribbon.org.uk/ambassadors-champions

I gael gwybod sut gallai eich sefydliad chi fod yn sefydliad cefnogi'r Rhuban Gwyn, ewch i: https://www.whiteribbon.org.uk/organisations

## Ymunwch â FfCSyM-Cymru yn y Senedd ar 18 Tachwedd i nodi Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod a Diwrnod Rhyngwladol y Rhuban Gwyn

Mae FfCSyM-Cymru a Joyce Watson AoS yn cynllunio **digwyddiad trawsbleidiol i randdeiliaid** yn y Senedd cyn cynnal **wylnos yng ngolau canhwyllau** ar 18 Tachwedd. Cofrestrwch yma ar gyfer y digwyddiad rhanddeiliaid https://www.thewi.org.uk/wi-in-wales/news-and-events/white-ribbon-day-stakeholder-event ac yma ar gyfer yr wylnos yng ngolau canhwyllau https://www.thewi.org.uk/wi-in-wales/news-and-events/Candlelight-Vigil-Registration-2024





*Gwylnos yng ngolau canhwyllau 2023*






- **Hyrwyddo'r llinell gymorth Byw Heb Ofn**

Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn darparu cyngor a chymorth 24-awr am ddim i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu'n adnabod rhywun sy'n eu dioddef.

Hyrwyddwch y Llinell Gymorth yn eich cylchlythyrau, yn eich cyfarfodydd a digwyddiadau a thrwy eich sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Live Fear Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

- **Sefydlwch gysylltiad â'ch SyM neu ffederasiwn lleol**

Ers sefydlu ymgyrch Nid yn fy Enw i, mae aelodau SyM wedi defnyddio eu cysylltiadau cymunedol cryf i recriwtio miloedd o lysgenhadon (gweler yr astudiaethau achos isod).

Mae nifer o SyM a ffederasiynau yn trefnu gwylnosau yng ngolau canhwyllau neu ddigwyddiadau eraill i godi ymwybyddiaeth. Mae manylion cyswllt y ffederasiynau ar gael ar wefan SyM www.thewi.org.uk.  Fel arall, cysylltwch â FfCSyM-Cymru os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu cysylltiad â'r SyM yn lleol neu ar lefel sirol. E-bost: walesoffice@nfwi-wales.org.uk

- **Addysgwch eich hun am drais yn erbyn menywod a'r rôl y gallwch chi ei chwarae fel cynghreiriaid**

Neilltuwch un o'ch cyfarfodydd i ddysgu mwy am drais yn erbyn menywod, a gwahoddwch SyM a siaradwyr arbenigol i siarad â chi.

Mae nifer o adnoddau ar gael, a chyfleoedd hyfforddi hefyd. Gweler y dolenni yn yr adran ‘adnoddau’ isod fel man cychwyn.

- **Trafodwch bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach yn agored yn eich grŵp**

- **Hyrwyddwch eich ymrwymiad i ddod â thrais yn erbyn menywod i ben ac addysgu a chefnogi eich rhwydweithiau/aelodau i ddod yn gynghreiriaid**

Cyhoeddwch ddatganiad neu flog ar eich gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol
Trefnwch dynnu llun â phawb yn gwisgo rhubanau gwyn

- **Codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod**

Neilltuwch un o'ch digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a chynnwys y gymuned gyfan.

## Astudiaethau Achos

Sefydlodd **Ffederasiwn Sir Benfro** gysylltiadau â Thîm Rygbi Arberth a Sied Dynion Ludchurch yn Sir Benfro, a sicrhau eu cefnogaeth.

Cymerodd aelodau **Ffederasiwn Powys Brycheiniog** rhan mewn taith gerdded Rhuban Gwyn a arweiniwyd gan Gyngor Sir Powys. Yn ogystal, recriwtiwyd Côr Aberhonddu a Chlwb Bowlio Penlan yn Aberhonddu i addo eu cefnogaeth.



*Clwb Rygbi Arberth*



*Aelodau Ffederasiwn Powys Brycheiniog*



*Côr Meibion Aberhonddu*

Yn ogystal, mae **Ffederasiwn Powys Brycheiniog** wedi sicrhau cefnogaeth Côr Meibion Talgarth a berfformiodd mewn dau ddigwyddiad yn ystod y 16 Diwrnod o Weithredu yn gwisgo rhubanau gwyn. Mae aelodau Côr Meibion Aberhonddu a'r Cylch a chynghorwyr Cyngor Tref Aberhonddu wedi cefnogi'r ymgyrch hefyd.



*Côr Meibion Talgarth*

Yn 2023, cefnogwyd FfCSyM-Cymru gan glwb Criced Morgannwg, Clwb Pêl-droed Caerdydd a Thîm Hoci Iâ Diawliaid Caerdydd.




*Criced Morgannwg*




*Tîm Hoci Iâ Diawliaid Caerdydd*

## Adnoddau addysgiadol a cyfleoedd hyfforddi

**Cwrs hyfforddi ar-lein: Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei modiwl dysgu ar-lein VAWDASV yn hygyrch i bawb. Bydd yr hyfforddiant yn eich helpu chi i adnabod arwyddion o gam-drin, a sut y gallwch chi helpu'n ddiogel. Mae'r hyfforddiant 45-munud ar-lein ar gael trwy fewngofnodi fel gwestai yma:-
https://learning.nhs.wales/course/view.php?id=1152

## Gwnewch gais am hyfforddiant di-dâl ar gyfer ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol

Mae hyfforddiant ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i chi gael sgyrsiau gyda'ch ffrindiau a'ch cydweithwyr ar faterion fel casineb at fenywod a merched, rhywiaeth ac aflonyddu a sylwadau digroeso a sut i ymyrryd a herio ymddygiadau tebyg.

Mae'r hyfforddiant, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar gael i weithleoedd, grwpiau cymunedol, sefydliadau chwaraeon a grwpiau eraill sydd â diddordeb.

https://www.llyw.cymru/hyfforddiant-am-ddim-ar-sut-i-ymyrryd-mewn-sefyllfaoedd-niweidiol

## Adnoddau Nid yn fy Enw i

Mae gan FfCSYM-Cymru nifer o adnoddau ar gyfer cefnogi sefydliadau i gymryd rhan yn yr ymgyrch Nid yn fy Enw i, gan gynnwys y poster Nid yn fy Enw i a chyflwyniad PowerPoint:
https://www.thewi.org.uk/wi-in-wales/campaigns/no-more-violence-against-women?lang=cy

## Adnoddau ymgyrch Rhuban Gwyn

Mae gwybodaeth am Ddiwrnod Rhuban Gwyn 2024, ac adnoddau sy'n cefnogi sefydliadau i nodi'r Diwrnod ar gael yma: https://www.whiteribbon.org.uk/wrd24

Mae adnoddau hyrwyddo fel posteri a rhubanau gwyn ar gael wrth yr Ymgyrch Rhuban Gwyn: http://www.whiteribboncampaign.co.uk/

## Gwasanaethau cymorth

Mae manylion gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr trais a chamdriniaeth ar gael ar wefan Byw Heb Ofn: https://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn

## Gwybodaeth Bellach

FfCSyM-Cymru, Ystafell 66, 33 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HB

**Ffôn:** 029 2022 1712 **E-bost:** s.thomas@nfwi-wales.org.uk

**Gwefan:** http://www.thewi.org.uk/wi-in-wales